Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 332 – 26 Ebrill 2010
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2010.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 331

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 331.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd JWJ ei adroddiad.

Llongyfarchodd IJ ar gael ei hethol yn gadeirydd yr □yl Cyfryngau Celtaidd am gyfnod o dair blynedd.

Cyfeiriodd at lansiad gwasanaeth newydd Stwnsh. Dymunodd yn dda i bawb oedd yn gysylltiedig gyda'r gwasanaeth.

Cyfeiriodd at lwyddiant noson gwylwyr Abertyleri.

Roedd y Cadeirydd wedi cyfarfod yr Aelodau newydd – Glenda Jones a John Davies.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y sylw amlwg y mae effaith economaidd y diwydiannau creadigol yn ei gael yn yr adroddiad, a'i fod yn credu ei fod yn bwysig bod yr Awdurdod yn ystyried comisiynu adroddiad effaith economaidd newydd.

Llongyfarchodd y Cadeirydd y rhaglen "Llwch Folcanig – yr Argyfwng". Roedd yn rhaglen dda, oedd wedi ei gomisiynu yn gyflym iawn, gan ddangos aeddfedrwydd y Sianel a sefydlogrwydd y sector.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd IJ ei hadroddiad.

Cyfeiriodd at ddigwyddiad hanesyddol diffodd y gwasanaeth analog ar 31 Mawrth. Yn dilyn hyn roedd proses y newid i ddigidol wedi ei gwblhau, a S4C bellach yn wasanaeth gyfan gwbl Gymraeg.

Mynediad i Glic
Cyfeiriodd IJ at y trafodaethau yn ymwneud â galluogi gwylwyr i chwilio am raglenni Clic ar iplayer. Esboniodd IJ ei bod wedi derbyn y manylion technegol perthnasol a'i bod yn fodlon eu darparu i'r Awdurdod.

4. Materion Eraill
Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg
- Adroddiad PWC ar Lywodraethant Corfforaethol S4C
- Cymeradwyo Datganiad Ariannol 2009
- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Monitro Chwarterol y Cynllun Corfforaethol
- Adroddiad a Chyflwyniad Ymchwil